# Deall - Cynllun Cyflawni Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio Cymru 2025-2028

## Adroddiad ar yr hyn a ddigwyddodd yn y flwyddyn gyntaf — 2025 i 2026

Fersiwn gymunedol

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# Helo

Ym mis Ebrill 2025, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru [Deall – Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio Cymru.]

Mae'r Strategaeth yn ymwneud ag atal hunanladdiad, cefnogi pobl sy'n hunan-niweidio a gwneud yn siŵr bod pobl yn cael y cymorth cywir ar yr adeg gywir.

Mae hefyd yn ymwneud â chefnogi teuluoedd, ffrindiau ac eraill sydd wedi'u heffeithio gan hunanladdiad.

Ochr yn ochr â'r Strategaeth, fe wnaethom gyhoeddi Cynllun Cyflawni sy'n esbonio beth rydym yn mynd i'w wneud yn ystod y tair blynedd gyntaf.

## Ein gweledigaeth

Rydym am i bobl yng Nghymru fyw mewn cymunedau sy'n:

- rhydd rhag ofn a stigma ynghylch hunanladdiad a hunan-niweidio
- cefnogi pobl sy'n hunan-niweidio ac yn atal hunanladdiad
- grymuso pobl i helpu ei gilydd..

**Stigma** — pan fydd rhywun yn cael ei weld mewn ffordd negyddol neu'n cael ei farnu oherwydd rhywbeth mae'n ei brofi.

**Hunan-niweidio** — pan fydd rhywun yn brifo ei hun yn fwriadol fel ffordd o geisio ymdopi â theimladau neu brofiadau llethol.

**Hunanladdiad** — pan fydd rhywun yn dod â'i fywyd ei hun i ben.



Rydym bellach ar ddiwedd blwyddyn gyntaf y Cynllun Cyflawni.

**Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar yr hyn sydd wedi digwydd hyd yma a'r hyn sydd angen digwydd o hyd.**

# Camau sy'n cefnogi'r Strategaeth gyfan

## Yn y flwyddyn gyntaf hon:

### ✓ Fe wnaethom sefydlu grŵp i wirio cynnydd

Mae Grŵp Gweithredu Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio wedi cael ei sefydlu i wirio sut mae'r Strategaeth a'r Cynllun Cyflawni yn dod yn eu blaenau.

### ✓ Fe wnaethom wella ymchwil a thystiolaeth

Rydym bellach yn gweithio'n agosach gyda'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ymchwil i Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio ym Mhrifysgol Abertawe (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel y Ganolfan Genedlaethol).

Mae grwpiau newydd hefyd wedi cael eu sefydlu i ddod ag ymchwil a thystiolaeth ynghyd. Mae'r rhain yn cynnwys, ymchwilwyr, pobl sy'n gweithio mewn gwasanaethau, pobl sy'n llunio polisïau, pobl â phrofiad bywyd.

### ✓ Fe wnaethom wrando'n well ar bobl

Mae'r Ganolfan Genedlaethol a'r Samariaid wedi sefydlu grŵp i wneud yn siŵr bod pobl â phrofiad bywyd yn cael eu cynnwys wrth lunio ymchwil a pholisi yng Nghymru.

**Profiad bywyd** — rhywbeth sydd wedi digwydd yn eich bywyd.



# Nod 1: Deall hunanladdiad a hunan-niweidio yn well

## Yn y flwyddyn gyntaf hon:

**✓ Fe wnaethom gyhoeddi ffordd newydd o fesur cynnydd**

Bydd y Fframwaith Canlyniadau newydd yn ein helpu i wirio a yw'r Strategaeth yn gwneud gwahaniaeth.

**✓ Fe wnaethom edrych ar ba wybodaeth sydd ar gael am hunan-niweidio**

Penodwyd Swyddog Ymchwil yn y Ganolfan Genedlaethol i helpu i nodi pa wybodaeth sydd gennym am hunan-niweidio yng Nghymru.

**✓ Fe wnaethom ddod ag ymchwil a thystiolaeth ynghyd**

Mae grŵp newydd wedi cael ei sefydlu i ddod â gwybodaeth, ymchwil a thystiolaeth ynghyd am hunanladdiad a hunan-niweidio.

**✓ Fe wnaethom helpu gweithwyr proffesiynol a staff i ddysgu oddi wrth ei gilydd**

Mae gennym rwydweithiau newydd sy'n dod â'r canlynol ynghyd:

- pobl â phrofiad bywyd
- staff sy'n gweithio ar draws gwasanaethau
- ymchwilwyr
- arweinwyr a rheolwyr sy'n llunio polisïau
- sefydliadau a grwpiau lleol
- prifysgolion a cholegau.

**✓ Fe wnaethom wrando ar bobl**

Mae pobl â phrofiad bywyd wedi cymryd rhan mewn gweithdai, gan rannu eu profiadau o hunanladdiad a hunan-niweidio i helpu i ddatblygu cynigion ymchwil a fframweithiau.

**✓ Fe wnaethom ddechrau cysylltu gwahanol ffynonellau o wybodaeth**

Mae ymchwilydd wedi cael ei benodi i helpu i gysylltu gwahanol ffynonellau o ddata am hunanladdiad. Dylai hyn ein helpu i ddeall yn well beth sy'n digwydd a'r ffordd orau o helpu.



## Yn dal i gael ei weithio arno:

Rydym yn gweithio i:

- gasglu gwybodaeth well am hunanladdiad a hunan-niweidio
- ddeall mwy am sut i atal hunanladdiad a helpu pobl sy'n hunan-niweidio mewn gwahanol grwpiau a chymunedau
- wella sut mae hunan-niweidio yn cael ei nodi a'i gofnodi
- ddod â gwybodaeth a chyngor ynghyd
- gytuno ar ba ymchwil y mae angen i ni ganolbwyntio arno nesaf
- gasglu gwybodaeth well am bethau fel ethnigrwydd, hunaniaeth rhywedd, iaith ac anabledd dysgu
- adeiladu ar y Fframwaith Canlyniadau a datblygu fframwaith monitro a gwerthuso.

# Nod 2: Atal hunanladdiad a chefnogi pobl sy'n hunan-niweidio

## Yn y flwyddyn gyntaf hon:

### ✓ Fe wnaethom wella hyfforddiant

Mae adnoddau wedi cael eu datblygu i helpu staff Llywodraeth Cymru i ddeall y risg o hunanladdiad a chael sgyrsiau gwell.

Rydym hefyd wedi edrych ar ba hyfforddiant y mae staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda'r cyhoedd eisoes yn ei gael, a ble mae angen mwy.

Mae dwy sesiwn peilot ar ymwybyddiaeth o hunanladdiad a sgyrsiau cefnogol wedi cael eu cynnal ar gyfer staff Llywodraeth Cymru.

### ✓ Fe wnaethom ddatblygu cynlluniau ar gyfer lleoedd lle mae risg uwch o hunanladdiad

Mae hyn er mwyn helpu gwasanaethau i ymateb mewn lleoedd a safleoedd lle bu pryderon am hunanladdiad a hunan-niweidio.

### ✓ Fe wnaethom weithio i wneud adroddiadau yn y cyfryngau yn fwy diogel

Rydym wedi bod yn gweithio gyda'r Samariaid i annog adroddiadau mwy diogel am hunanladdiad a hunan-niweidio yn y cyfryngau.

### ✓ Fe wnaethom weithio i wneud atal hunanladdiad yn rhan o wasanaethau lleol

Rydym yn gweithio gyda sefydliadau fel bod atal hunanladdiad a hunan-niweidio yn cael eu cynnwys yn y ffordd mae gwasanaethau lleol yn cynllunio ac yn gweithio gyda'i gilydd.

### ✓ Rydym yn gweithio ar draws y DU i ymateb i risgiau newydd o hunanladdiad

Mae Cymru'n gweithio gyda sefydliadau eraill yn y DU i ddeall ffyrdd newydd y gallai pobl fod mewn perygl o hunanladdiad a sut y gellir eu hamddiffyn.

### ✓ Fe wnaethom ganolbwyntio ar hunanladdiad ymhlith dynion

Mae hunanladdiad ymhlith dynion yn parhau i fod yn bryder difrifol.

Fe wnaethom gynnal Uwchgynhadledd Genedlaethol i edrych ar:

- sut y gall dynion gael cymorth yn gynharach
- sut y gallai cymorth gyrraedd mwy o bobl.

Fe wnaethom hefyd gynnal sesiwn gydag arbenigwyr ar gyfer pobl sy'n gweithio ar bolisïau'r llywodraeth, i'w helpu i ddeall y risgiau sy'n effeithio ar ddynion a meddwl am beth arall y gellir ei wneud.

## Yn dal i gael ei weithio arno:

Rydym yn gweithio i:

- barhau i wella hyfforddiant ac adnoddau ar ymwybyddiaeth o hunanladdiad ar gyfer staff Llywodraeth Cymru
- barhau i wella adroddiadau mwy diogel yn y cyfryngau
- gynnwys atal hunanladdiad mewn cynlluniau lleol a rhanbarthol
- weithio gyda llywodraethau eraill ar draws y DU i helpu i atal pobl rhag cael gafael ar bethau y gallent eu defnyddio i ddod â'u bywydau eu hunain i ben
- leihau cynnwys niweidiol ar-lein ac effeithiau negyddol y cyfryngau cymdeithasol.



# Nod 3: Grymuso pobl

## Yn y flwyddyn gyntaf hon:

**✓ Fe wnaethom ddechrau mapio gwybodaeth ac adnoddau am hunanladdiad a hunan-niweidio ledled Cymru**

Bydd hyn yn helpu i ddangos beth sydd ar gael a ble y gallai fod bylchau.

**✓ Fe wnaethom ddatblygu hyfforddiant newydd ar ymwybyddiaeth o hunan-niweidio**

Fe wnaeth pobl ein helpu i ddatblygu cwrs hyfforddi dwyieithog newydd o'r enw'r Modiwl Ymwybyddiaeth Sylfaenol o Hunan-niweidio. Mae'n helpu pobl i ddeall hunan-niweidio yn well a sut i helpu pobl sy'n hunan-niweidio.

**✓ Rydym yn gwella hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o hunanladdiad**

Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddiweddaru'r modiwl hyfforddiant presennol ar ymwybyddiaeth o hunanladdiad. Mae hyn yn cynnwys ei wneud yn haws i'w ddefnyddio ac ychwanegu rhannau rhyngweithiol.

**✓ Fe wnaethom weithio i wella dealltwriaeth y cyhoedd o hunanladdiad a hunan-niweidio**

Fe wnaethom weithio gyda gwahanol grwpiau a chael cyngor ar sut i wneud hyn.

Mae gennym hefyd gynllun cyfathrebu ac ymgysylltu newydd ar gyfer staff Llywodraeth Cymru.

## Yn dal i gael ei weithio arno:

Rydym yn gweithio i:

- wneud gwybodaeth ac adnoddau am hunanladdiad a hunan-niweidio yn haws i'w canfod a'u defnyddio
- gyhoeddi a hyrwyddo hyfforddiant newydd
- helpu pobl i wrando'n well a dangos tosturi
- ddatblygu cynlluniau diogelwch a deunyddiau cymorth
- edrych ar sut y gallai ymgyrch genedlaethol helpu i leihau stigma
- godi ymwybyddiaeth o hunanladdiad a hunan-niweidio mewn cartrefi preswyl a lleoliadau cymdeithasol eraill



# Nod 4: Cefnogi pobl

## Yn y flwyddyn gyntaf hon:

### ✓ Rydym yn gwella cymorth mewn gwasanaethau iechyd meddwl i bobl sy'n hunan-niweidio neu sydd â meddyliau am hunanladdiad

Mae canllawiau a safonau newydd wedi cael eu datblygu i helpu i gadw pobl yn ddiogel pan fyddant yn cael gofal iechyd meddwl fel claf mewnol neu'n gadael yr ysbyty.

Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo i helpu pobl i greu eu cynlluniau eu hunain ar gyfer cadw'n ddiogel.

**Claf mewnol** — rhywun sy'n aros yn yr ysbyty tra bydd yn cael gofal.

### ✓ Fe wnaethom edrych ar sut y gallai cymorth mewn argyfwng weithio'n well

Mae gwasanaethau iechyd, cynghorau, yr heddlu a phobl â phrofiad bywyd wedi gweithio gyda'i gilydd i gynllunio ffordd well o ddarparu cymorth mewn argyfwng ledled Cymru.

### ✓ Rydym yn gwella mynediad at gymorth

Mae gwaith yn mynd rhagddo i wneud yn siŵr bod pobl sydd mewn perygl o hunanladdiad a hunan-niweidio yn gallu cael therapïau seicolegol a chymorth arall.

**Therapïau seicolegol** — triniaethau sy'n helpu pobl gyda'u meddyliau, eu teimladau a'u hiechyd meddwl.

### ✓ Rydym wedi cynhyrchu canllawiau sy'n dweud sut beth ddylai cymorth da fod

Mae Datganiad Ansawdd Hunan-niweidio newydd wedi cael ei gyhoeddi.

### ✓ Fe wnaethom wella hyfforddiant

Mae hyfforddiant ac adnoddau ar-lein yn helpu mwy o staff rheng flaen i ddeall hunanladdiad a hunan-niweidio.

**Gweithwyr rheng flaen** — pobl sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda'r cyhoedd ac yn darparu cymorth neu wasanaethau.

### ✓ Rydym yn gwella cymorth mewn gofal sylfaenol

Mae grŵp wedi cael ei sefydlu i ddatblygu adnoddau ymarferol ar gyfer pobl sy'n gweithio mewn gofal sylfaenol.

**Gofal sylfaenol** — y gwasanaethau iechyd y mae pobl fel arfer yn mynd atynt yn gyntaf am help, fel meddygon teulu, fferyllfeydd a gwasanaethau iechyd cymunedol.

## Yn dal i gael ei weithio arno:

Rydym yn gweithio i:

- orffen y llwybr ar gyfer cefnogi pobl sy'n hunan-niweidio
- wella cymorth i bobl ar ôl iddynt geisio dod â'u bywyd eu hunain i benddatblygu'r pecyn cymorth gofal sylfaenol
- fapio'r cymorth sydd ar gael ledled Cymru ar gyfer hunanladdiad a hunan-niweidio
- wella cymorth mewn argyfwng
- barhau i wella a hyrwyddo hyfforddiant
- ddeall pa gymorth y gallai fod ei angen ar staff pan fydd eu gwaith yn ymwneud â hunanladdiad a hunan-niweidio.



# Nod 5: Paratoi pobl

## Yn y flwyddyn gyntaf hon:

**✓ Fe wnaethom gasglu gwybodaeth am ble mae pobl yn mynd am help pan fydd ganddynt anghenion eraill**

Fe wnaethom gasglu gwybodaeth gan wasanaethau sy'n cefnogi pobl sy'n cael problemau gyda chamddefnyddio sylweddau a phobl sydd wedi'u heffeithio gan gam-drin a thrais.

Mae hyn yn ein helpu i ddeall pa gymorth sydd ar gael eisoes a ble y gallai fod bylchau.

**✓ Rydym yn gwella hyfforddiant ar gyfer gwasanaethau allweddol**

Cafodd hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o hunanladdiad a hunan-niweidio ei ddiweddaru.

**✓ Fe wnaethom wella cymorth a chanllawiau ar gyfer gwasanaethau sy'n cefnogi plant a phobl ifanc**

Mae hunanladdiad a hunan-niweidio wedi cael eu cynnwys yn gliriach mewn canllawiau ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl plant a chanllawiau diogelu.

Mae gwaith yn parhau gyda phrifysgolion, colegau, CAMHS (Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed), gwasanaethau ysgol, Unedau Cyfeirio Disgyblion a gwasanaethau digartrefedd

**✓ Fe wnaethom weithio i helpu pobl i ymateb i gynnwys niweidiol ar-lein**

Mae timau'n gweithio gyda'i gilydd i ddeall cynnwys niweidiol ar-lein a'i gwneud yn haws i bobl roi gwybod amdano.

**✓ Fe wnaethom ei gwneud yn haws i sefydliadau weithio gyda'i gilydd**

Mae partneriaethau rhanbarthol yn rhan bwysig o hyn.

Maent yn dod â sefydliadau yn yr un ardal at ei gilydd i gynllunio a darparu cymorth.



## Yn dal i gael ei weithio arno:

Rydym yn gweithio i:

- ddeall ble mae pobl sydd mewn mwy o berygl yn mynd am gymorth
- ddod o hyd i ffyrdd gwell o gyrraedd a chefnogi dynion a allai fod mewn perygl
- wella hyfforddiant ar gyfer gwasanaethau allweddol sy'n gweithio gyda phobl sydd mewn perygl mawr o hunanladdiad a hunan-niweidio
- wella cymorth i bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl ac sy'n camddefnyddio sylweddau
- wella canllawiau ar gyfer gwasanaethau sy'n cefnogi plant a phobl ifanc
- gefnogi staff addysg y gallai eu gwaith effeithio arnynt
- ddechrau ystyried sut y gallwn gefnogi pobl eraill sy'n gweithio gyda phobl sydd mewn perygl mawr o hunanladdiad a hunan-niweidio.

# Nod 6: Ymateb

## Yn y flwyddyn gyntaf hon:

### Fe wnaethom wella cymorth ar ôl hunanladdiad

Fe wnaethom edrych ar y cymorth sydd ar gael i bobl y mae hunanladdiad wedi effeithio ar eu bywydau drwy'r Gwasanaeth Cynghori a Chyswllt Cenedlaethol.

Yna fe wnaethom rai newidiadau i wella'r gwasanaeth a gwneud yn siŵr ei fod yn parhau i roi'r help a'r cymorth sydd eu hangen ar bobl.

**Gwasanaeth Cynghori a Chyswllt Cenedlaethol** — gwasanaeth yng Nghymru sy'n cefnogi pobl sydd wedi'u heffeithio gan hunanladdiad.

### Fe wnaethom greu gwybodaeth gliriach i bobl sydd wedi'u heffeithio gan hunanladdiad

Mae llyfryn gwybodaeth a chymorth dwyieithog byr o'r enw 'Beth Sy'n Digwydd Nesaf?' wedi cael ei ddatblygu. Mae'n esbonio beth allai ddigwydd ar ôl hunanladdiad a ble y gall pobl ddod o hyd i gymorth.

### Fe wnaethom ddatblygu cynlluniau i helpu gwasanaethau i ymateb gyda'i gilydd

Mae canllawiau cenedlaethol drafft wedi cael eu datblygu i helpu gwasanaethau i ymateb yn gyflym a gweithio gyda'i gilydd ar ôl hunanladdiad.

Mae canllawiau drafft hefyd wedi cael eu datblygu ar gyfer sefyllfaoedd lle gallai sawl hunanladdiad fod yn gysylltiedig.

### Fe wnaethom weithio i ddiogelu gwybodaeth bwysig ar-lein

Gall rheolau newydd yn y DU ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau ar-lein gadw gwybodaeth a allai fod yn bwysig pan fydd marwolaeth plentyn yn cael ei hymchwilio

### Fe wnaethom wella hyfforddiant

Mae hyfforddiant achrededig newydd hefyd wedi cael ei ddatblygu i helpu staff i ymateb i bobl sydd wedi'u heffeithio gan hunanladdiad. Mae mwy na 50 o hyfforddwyr ledled Cymru.



## Yn dal i gael ei weithio arno:

Rydym yn gweithio i

- barhau i adolygu pa mor dda mae cymorth i bobl sydd wedi'u heffeithio gan hunanladdiad yn gweithio
- argraffu a rhannu'r llyfryn 'Beth Sy'n Digwydd Nesaf?'
- orffen y canllawiau cenedlaethol ar ymateb yn gyflym ar ôl hunanladdiad
- orffen y canllawiau ar gyfer sefyllfaoedd lle gallai sawl hunanladdiad fod yn gysylltiedig
- barhau i weithio gyda sefydliadau yn y DU ar sut mae gwybodaeth ar-lein, a allai fod yn bwysig mewn ymchwiliad crwner i farwolaeth plentyn, yn cael ei chadw a'i defnyddio.

# Beth fyddwn ni'n ei wneud nesaf

Byddwn yn parhau i weithio ar yr holl gamau sydd wedi'u nodi yn y Cynllun Cyflawni tair blynedd, yn enwedig y rhai sydd wedi cael eu gohirio.



## Diolch

Gallwch ddarllen mwy yma:

[Cynllun Cyflawni Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio: diweddariad blynyddol 2026 | LLYW.CYMRU]